# Taflen Wybodaeth ar gyfer Arsylwi Uniongyrchol (Rhiant ar Ran Plentyn)

Fy enw i yw: ____________________

Dyddiad heddiw: ____________________

Rwy'n fyfyriwr ar y rhaglen MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn rhan o fy nghwrs, mae angen i mi gwblhau tri lleoliad wedi'u hasesu mewn lleoliadau gwaith cymdeithasol. Er mwyn pasio'r lleoliadau hyn, mae'n rhaid i mi lunio portffolio o dystiolaeth i ddangos sut rwy'n bodloni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol ac yn cynnal y Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.

**Beth yw arsylwi uniongyrchol?**
Arsylwi uniongyrchol yw pan fydd gweithiwr cymdeithasol cymwys yn fy ngwylio wrth i mi wneud darn o waith gyda pherson neu deulu. Gallai hyn gynnwys ymweliad cartref, cyfarfod yn y swyddfa, neu alwad dros Teams. Y pwrpas yw rhoi adborth i mi a chefnogi fy natblygiad yn weithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant.

**Pam ydw i'n rhannu hyn gyda chi?**
Hoffwn i gael fy arsylwi wrth weithio gyda'ch plentyn. Eich penderfyniad chi yw hi yn llwyr. Os ydych chi'n penderfynu peidio rhoi caniatâd, ni fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth rydych chi neu eich plentyn yn ei dderbyn gan yr Awdurdod Lleol nac unrhyw sefydliad mewn unrhyw ffordd.

**Os ydych chi'n cytuno:**

- Gallwch chi newid eich meddwl ar unrhyw adeg, cyn neu yn ystod y sesiwn, heb roi rheswm.
- **Ni** fydd eich enw a'ch manylion personol yn cael eu cynnwys yn fy mhortffolio na fy ngwaith yn y brifysgol.
- Ar ôl y sesiwn, efallai y bydd y person sy'n fy arsylwi yn gofyn i chi neu'ch plentyn sut aeth y sesiwn yn eich barn chi. Nid oes rhaid i chi na'ch plentyn roi adborth os nad ydych chi neu nhw'n dymuno.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Os ydych chi'n hapus i barhau, gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd byr.
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, gofynnwch i mi neu fy Addysgwr Ymarfer. Gallwch chi hefyd gysylltu â:

**Dr Dan Burrows**
Arweinydd Dysgu Ymarfer, Prifysgol Caerdydd
E-bost: BurrowsDR1@caerdydd.ac.uk
Ffôn: 029 2087 5501
Diolch yn fawr am roi o'ch amser i ystyried hyn.